



## WOW: her cerdded i'r ysgol gydol y flwyddyn

### Helo

Croeso i flwyddyn newydd o WOW, her cerdded i'r ysgol Living Streets. Rydym wrth ein bodd y bydd eich ysgol yn cymryd rhan yn ystod y flwyddyn nesaf.

Y thema ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yw Cerdded Cyfandiroedd America ac mae yna 11 o fathodynau newydd gwych i'w casglu, gan fynd â disgyblion ar daith o dop Gogledd America, trwy wastadeddau helaeth yr Unol Daleithiau, trwy fforestydd glaw Canol America a dod i ben gyda gŵyl fwyd a dawns yn Ne America. Mae'r thema a'r bathodynau yn canolbwyntio ar anifeiliaid, diwylliannau brodorol, cerddoriaeth a digwyddiadau hanesyddol a gwareiddiadau.

### Adnoddau newydd

Yn y Pecyn Lansio WOW hwn fe welwch yr amrywiaeth cyfan o adnoddau newydd sbon yn helpu eich ysgol i gael y gorau o WOW:

- Croeso i WOW – canllaw athro i gynnal WOW
- Cynllun lansio i athrawon – i gychwyn pethau yn eich ysgol
- Canllaw disgyblion a gweithgaredd lansio
- Llythyr cyflwyno i rieni – i'w lungopïo a'i anfon adref
- Canllaw monitro WOW – i ddisgyblion sy'n gwneud y rôl hon
- Canllawiau Traciwr Teithio WOW – ar gyfer gweinyddu a dosbarthiadau
- Poster WOW – i dderbynfa'r ysgol
- Sut i sefydlu Parcio a Brasgamu yn eich ysgol.

Gellir hefyd lwytho i lawr yr holl ddeunyddiau hyn o [www.livingstreets.org.uk/walktoschool](http://www.livingstreets.org.uk/walktoschool) ynghyd â chyflwyniad i'r ysgol gyfan.

Cofiwch rannu gyda'r holl athrawon yn eich ysgol fel y gall pawb gael golwg a llwytho i lawr fersiynau drostynt eu hunain.

Ar-lein, gallwch hefyd gael adnoddau ychwanegol fel cyflwyniadau i'r ysgol gyfan, adnoddau dysgu am ddim sydd wedi'u halinio i fathodyn pob mis, a gwybodaeth ychwanegol am Draciwr Teithio WOW.

### Traciwr Teithio WOW

Traciwr Teithio WOW yw ein offer rhyngweithiol ar-lein ar gyfer cofnodi teithiau i'r ysgol. Eleni rydym yn croesawu unwaith eto, dagiau enwau i ddisgyblion, rhestr y gellir ei hargraffu o enwau'r disgyblion ar gyfer yr ystafell ddosbarth, ac animeiddiadau misol ar gyfer y dudalen gofnodi.

Living Streets Cymru

Llawr 2, 1-7 Castle Street, Castle House, Caerdydd CF10 1BS

[wales@livingstreets.org.uk](mailto:wales@livingstreets.org.uk)

07714 616 598

[livingstreets.org.uk](http://livingstreets.org.uk)



**DEWCH I NI  
GERDDED I'R  
YSGOL**

Gobeithiwn y byddwch chi a'ch holl ddisgyblion yn cael blwyddyn wych o gerdded i'r ysgol gyda WOW a Living Streets.

Pob dymuniad da,

## **Y Tîm Cerdded i'r Ysgol**

**020 7377 4900**

**[www.livingstreets.org.uk/walktoschool](http://www.livingstreets.org.uk/walktoschool)**

**#walktoschool**

**f LIVINGSTREETSUK**

**🐦 @LIVINGSTREETS**

Living Streets Cymru

Llawr 2, 1-7 Castle Street, Castle House, Caerdydd CF10 1BS

[wales@livingstreets.org.uk](mailto:wales@livingstreets.org.uk)

07714 616 598

[livingstreets.org.uk](http://livingstreets.org.uk)